Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Fro
# Llangyndeyrn
# Cydweli
# SA17 5BW

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Fro yn ysgol ffederal sy'n gwasanaethu ardal wledig i'r de o dref Caerfyrddin. Lleolir yr ysgol ar ddau safle ym mhentrefi Llangyndeyrn ac Idole. Mae'r ysgol yn cael ei rheoli gan un corff llywodraethol ac un pennaeth. Hyd at 2009, yr oedd safle arall, ym mhentref Llansaint, yn rhan o'r ffederasiwn ond mae'r safle hon bellach wedi ei gau. Addysgir disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol un yn safle Llangyndeyrn, a disgyblion cyfnod allweddol dau yn safle Idole. Bob Dydd Gwener, fe ddaw disgyblion y ddau safle at ei gilydd.

Derbynnir plant i'r ysgol ar gychwyn y tymor maent yn cyrraedd eu pedair oed. Ar hyn o bryd, mae pum plentyn o oed meithrin yn yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad, roedd 51 o ddisgyblion yn yr ysgol.

Nid yw'r dalgylch yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Ar hyn o bryd, mae tua 9% o'r disgyblion â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 15% o'r disgyblion ar y Gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig.

Cymraeg yw iaith feunyddiol y gweithgareddau a'r prif gyfrwng addysgu yn Ysgol y Fro. Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg yn brif iaith. Yng nghyfnod allweddol 1, fe addysgir holl bynciau'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg, a chyflwynir y Saesneg yn gynyddol drwy flynyddoedd cyfnod allweddol 2.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2005. Mae'r pennaeth dros dro presennol yn ei swydd ers tair blynedd.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Fro yw £4,316 sy'n cymharu gydag uchafswm o £17,415 ac isafswm o £3,014 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 26ain uchaf o'r 114 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu dysgu;
- bod perfformiad yr ysgol mewn asesiadau athrawon yn cymharu'n ffafriol gyda'r teulu o ysgolion;
- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus iawn wrth gyfathrebu ar lafar;
- bod perthynas dda rhwng yr athrawon a'r disgyblion; a
- lle mae'r addysgu ar ei orau, mae disgyblion yn cael eu herio i gyrraedd eu llawn botensial.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y staff cyfan ac arweinwyr yr ysgol yn rhannu'r un weledigaeth;
- bod gan yr ysgol hanes llwyddiannus o sicrhau newid;
- bod gan yr ysgol drefn gynhwysfawr o hunan arfarnu sy'n adnabod elfennau priodol i'w datblygu ar y cyfan; a
- bod pawb sydd ynghlwm wrth yr ysgol yn awyddus i godi safonau gwaith disgyblion.

## Argymhellion

I wella, mae angen i'r ysgol :

A1 godi safonau ysgrifennu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm;

A2 darparu gweithgareddau sy'n galluogi pob disgybl i lwyddo hyd eithaf ei allu;

A3 sicrhau bod yr arferion addysgu ac asesu gorau'n cael eu lledaenu ar draws yr ysgol; a

A4 datblygu rôl y llywodraethwyr i fod yn fwy heriol a gweithredol yn y broses hunan arfarnu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Oherwydd bod rhai diffygion wedi ei nodi mewn meysydd pwysig, bydd yr awdurdod lleol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn adrodd i Estyn ar y cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dros eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Mae gallu llafar disgyblion yn dda. Gallant drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol iawn yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan ddefnyddio geirfa eang. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Fodd bynnag, nid yw gwaith ysgrifennu estynedig mwyafrif o'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn cyfateb i'w gallu a'u hoedran, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion o safon uchel.

Mae safonau a chynnydd disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a blwyddyn dau yn gyson dda. Mae'r plant yn ymroi'n frwdfrydig i'w gweithgareddau ac yn cyflawni eu tasgau'n llwyddiannus. Anwastad yw cyflawniad a chynnydd disgyblion yng nghyfnod allweddol 2, ac nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn gweithio hyd eithaf eu gallu.

Mae nifer y disgyblion sydd yn y garfan i'w hasesu ar ddiwedd cyfnod allweddol yn flynyddol yn amrywio, sy'n golygu bod canlyniadau un disgybl ar adegau'n medru dylanwadu'n drwm ar berfformiad y garfan.

Yn 2010, mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn 100% ar draws yr holl bynciau. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar ganlyniadau'r blynyddoedd cynt yn arbennig mewn mathemateg a Chymraeg, ac yn uwch na pherfformiad y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Dros y tair blynedd blaenorol, roedd canlyniadau'r ysgol yn is na chyfartaleddau'r teulu, awdurdod lleol a Chymru ar y cyfan. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran prydau ysgol am ddim, bu'r ysgol yn y chwarter isaf mewn Cymraeg a'r dangosydd pwnc craidd am y ddwy flynedd cyn 2010, ac yn y chwarter isaf mewn mathemateg am un flwyddyn o'r tair.

Nid oes data perfformiad ar gyfer diwedd cyfnod allweddol 2 yn 2010 ar gael gan nad oedd un disgybl ym mlwyddyn chwech. Yn ystod y tair blynedd cyn hynny bu canlyniadau'r ysgol yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu, awdurdod lleol a Chymru, ac eithrio 2008, pan oedd canlyniadau'r ysgol yn gyffredinol ychydig yn is na chyfartaledd y teulu. Yn y tair blynedd hyd at 2009, o'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y gyfradd prydau ysgol am ddim, bu'r ysgol yn gyson yn y chwarter uchaf mewn gwyddoniaeth, tra amrywiodd y perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg rhwng y chwarter uchaf a'r chwarter isaf.

Mae nifer y disgyblion sy'n cyflawni yn uwch na'r disgwyl, sef lefel 3 ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol, a Chymru. Fodd bynnag, nid yw gwaith y disgyblion a arsylwyd yn ystod yr arolygiad yn adlewyrchu hyn yn llawn.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched yn yr ysgol dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd, ond nid yw pob un ohonynt yn cyrraedd y safonau sy'n briodol i'w gallu a'u cyrhaeddiad.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith lafar yn rhugl ac yn effeithiol ar bob math o achlysur, ffurfiol ac anffurfiol.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn gyffredinol yn datblygu'n unigolion cyflawn a gweithgar sy'n barod eu cyfraniad i waith yr ysgol o fewn eu dosbarthiadau ac mewn gweithgareddau cymunedol.

Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda bod bwyta'n iach a ffitrwydd yn cyfrannu at gorff a meddwl iach.

Mae'r disgyblion i gyd yn dangos parch mawr at ei gilydd gyda'r rhai hŷn yn gofalu am y rhai iau yn ystod amseroedd chwarae. Mae'r disgyblion yn falch iawn o'u hysgol ac o'r gymuned glos a geir ynddi. Mae pob un o'r disgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae agwedd y disgyblion at ddysgu yn gadarnhaol ar y cyfan. Maent yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, ac yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau.

Roedd presenoldeb am y flwyddyn ysgol 2009-2010 yn 95% ar gyfer disgyblion o oed gorfodol sy'n gosod yr ysgol y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar sail yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Ni fu unrhyw absenoldebau heb eu hawdurdodi yn y flwyddyn 2009-2010. Mae disgyblion yn brydlon yn yr ysgol ac i'r sesiynau dysgu.

Mae ymddygiad y disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn gwrtais â'i gilydd a gydag oedolion ar bob achlysur. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol megis clybiau chwaraeon wythnosol, a gweithgareddau'r Urdd.

Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn weithgar ac yn ymwneud ag ystod o faterion, gan gynnwys cysylltiad gyda'r corff llywodraethol a chynghorau ysgol eraill yn yr ardal. Mae disgyblion yn meithrin dealltwriaeth dda o agweddau fel Masnach Deg ac mae mentrau fel yr ymgyrch leihau ac ailgylchu gwastraff wedi codi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion yn ymwneud â'r gymuned leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynlluniau gwaith yn darparu ystod o weithgareddau dysgu sy'n bodloni anghenion y disgyblion. Mae'r system darllen 'Buddies', lle mae plant hŷn yn

cynorthwyo disgyblion iau, yn cyflawni gwaith da yng nghyfnod allweddol 2, ac yn gymorth i godi safonau darllen. Mae'r gefnogaeth i ddatblygu darllen yn y cyfnod sylfaen a blwyddyn 2 yn gadarn.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ysgrifennu'n estynedig ond nid oes digon o wahaniaethu yn y tasgau i ateb anghenion disgyblion penodol. Mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach. Prin yw'r cyfleoedd o waith rhif a welir yn drawsgwricwlaidd. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu amrywiol.

Mae profiadau amrywiol yn cael eu defnyddio fel sbardun ar gyfer darparu ffocws i ddatblygu ystod o fedrau yn y Cyfnod Sylfaen, ond nid yw'r ardal allanol yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial fel estyniad o waith y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'r ystod llawn o fedrau allweddol wrth astudio themâu diddorol megis Y Celtiaid ac 'Achub y Cwm', ac wrth ymgymryd â phrosiect heriol i greu car rasio.

Mae addysg ar gyfer cynaliadwyedd a dinasyddiaeth byd eang yn derbyn lle blaenllaw. Mae'r cyngor eco yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod pwyntiau penodol a chreu cynllun datblygu. Mae gweithgareddau eco wedi eu plethu i gynlluniau cwricwlaidd yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 1.

Mae'r ysgol yn sicrhau y daw disgyblion yn gyfarwydd ag amgylchiadau, arferion a thraddodiadau gwahanol wledydd. Mae cyfleoedd priodol i astudio mannau megis Tansanïa a Botswana ac i ymgymryd â gweithgareddau sy'n hyrwyddo Masnach Deg.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol i wella medrau'r disgyblion ac i ennyn eu diddordeb. Mae'r cynlluniau ar gyfer gwersi yn glir ac mae defnydd effeithiol yn cael ei wneud o staff cymorth dysgu. Mae pob un o'r staff, gan gynnwys staff cymorth dysgu, yn modelu iaith yn dda ac yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol i gadw'r disgyblion ar y dasg dan sylw. Llwydda'r athrawon i greu awyrgylch ddysgu pwrpasol lle defnyddir canmoliaeth yn effeithiol i gefnogi'r disgyblion.

Mae'r athrawon i gyd yn creu perthynas agos, hwyliog gyda'r plant gan drafod yn effeithiol a chwestiynu'n ddeallus a phwrpasol. Mae pob plentyn yn cael ei gynnwys yn y wers ac mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gwybod beth yw natur y dasg a'r disgwyliadau.

Anwastad yw'r addysgu yn y gwersi a arsylwyd. Lle mae'r addysgu'n dda, mae meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu a chynigir cyfleoedd i blant asesu perfformiad ei gilydd mewn ffordd strwythuredig. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn paratoi'n drylwyr, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau. Maent yn cwestiynu'r disgyblion yn bwrpasol ac yn denu ymatebion deallus oddi wrthynt.

Lle mae'r addysgu'n ddigonol, nid yw'r tasgau'n ddigon gwahaniaethol, mae cyflymdra'r wers yn araf ac nid yw'r gweithgareddau'n ddigon heriol.

Mae'r athrawon yn gwneud sylwadau positif am waith y plant ond nid ydynt yn gyson yn cynnig argymhellion ar sut i wella eu dysgu. Mae targedau ieithyddol yn cael eu gosod ar ddechrau'r flwyddyn ym mlaen y llyfr ac mae tystiolaeth bod lleiafrif o ddisgyblion yn ailedrych ar eu targedau a gwerthuso eu cynnydd. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn arferiad gan bob disgybl.

Mae athrawon yn asesu cyrhaeddiad disgyblion yn rheolaidd ac yn dadansoddi'r canfyddiadau i olrhain cynnydd. Mae system olrhain sirol yn cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd y disgyblion ond prin yw'r dystiolaeth bod y wybodaeth hon yn cael ei ddefnyddio i flaen gynllunio a thargedu mannau penodol i'w datblygu a'u gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles ei disgyblion yn dda. Caiff iechyd a ffitrwydd y disgyblion eu hyrwyddo gan nifer o glybiau chwaraeon a siop ffrwythau dyddiol. Mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill dwy ddeilen yn y cynllun Ysgolion Iach. Mae'r ysgol hefyd, wedi bod ynghlwm â rhaglen addysg gorfforol PESS gan baratoi dawns am fôr ladron a fydd yn cael ei dangos i ysgolion eraill fel rhan o raglen hyfforddiant y sir.

Mae'r disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau niferus ym mywyd yr ysgol ac yn cyflawni yn eu dyletswyddau yn gydwybodol ac effeithiol. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'i chymuned ac yn cefnogi nifer fawr o ddigwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol yn dda.

Tystia'r disgyblion a'r rhieni nad oes problemau bwlio. Mae'r disgyblion yn troi'n hyderus at athrawon, cynorthwywyr a staff ategol yr ysgol am gymorth ac arweiniad.

Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau proffesiynol eraill, megis y therapydd iaith a lleferydd, y nyrs ysgol a'r seicolegydd addysg, gan fanteisio ar eu harbenigedd er mwyn hybu lles y disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu. Dengys ymatebion y disgyblion mewn holiadur ac ar lafar eu bod yn hapus iawn yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu'n gymdeithasol.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i adnabod plant ag anghenion addysgol arbennig. Rhoddir cefnogaeth dda gan y cynorthwywyr a'r athrawes anghenion addysgol arbennig i unigolion ar gyfer Saesneg yn bennaf. Neilltuir disgyblion o gyfnod allweddol 2 o'r dosbarth i wneud gwaith a nodwyd yn eu cynlluniau addysg unigol. Fodd bynnag, o ddydd i ddydd, nid yw'r athrawon dosbarth yn cymryd digon o gyfrifoldeb wrth gynllunio tasgau penodol ar gyfer y disgyblion hyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yn yr ysgol hon, ac mae pob disgybl yn cael cyfle i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd. Mae polisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio yn eu lle, ac

mae'r cynllun "Buddies" yn allweddol o safbwynt datgelu unrhyw broblemau a allai godi. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o amrywiaeth ac mae adnoddau ar gael iddynt sy'n adlewyrchu gwahaniaethau rhwng diwylliannau.

Mae'r adeiladau mewn cyflwr da, a'r arddangosfeydd yn lliwgar ac yn ddeniadol, ac yn creu awyrgylch croesawgar a symbylus yn y ddau safle. Mae adnoddau da a niferus gan yr ysgol ar gyfer datblygu'r holl feysydd dysgu.

Gwneir ymdrech dda i greu ymdeimlad o un ysgol, drwy gynnal gwasanaethau ar y cyd, cyfarfodydd y cyngor ysgol, a chyfathrebu da iawn rhwng holl aelodau'r staff.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth wedi llwyddo i rannu ei gweledigaeth â gweddill y staff yn effeithiol. Gweithiant yn ddiwyd fel tîm ynghyd â'r Llywodraethwyr i greu a gweithredu strategaethau ar gyfer uno'r ysgolion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr wedi gosod y nod o weithredu fel un ysgol ac o ymateb yn llawn i anghenion y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau wedi eu ffocysu yn ddigon penodol ar godi safonau.

Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd i greu ethos symbylus a chartrefol ar gyfer y disgyblion. Mae gan yr ysgol ystod eang o weithdrefnau a pholisïau priodol.

Mae gan y Corff Llywodraethol wybodaeth dda ynglŷn â'r ysgol. Mae'n derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ac yn trafod y cynnwys yn fanwl. Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu, ond maent yn cydnabod bod angen iddynt fod yn fwy heriol a chymryd rôl fwy blaenllaw ym mhroses hunan-arfarnu'r ysgol.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gyda chydbwysedd perthnasol rhwng tasgau ffocws a gweithgareddau o ddewis y plant.

Mae cysylltiadau adeiladol a rheolaidd gydag ysgolion lleol eraill o fewn clwstwr cynradd Bro Myrddin a thu hwnt i rannu arfer dda i ddatblygu dysgu ac addysgu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr ar gyfer monitro'r ddarpariaeth. Mae gweithdrefnau yn eu lle i arsylwi gwersi, i edrych ar waith disgyblion, i siarad gyda'r disgyblion ac i holi staff. Cofnodir y wybodaeth yn effeithiol a'i drosglwyddo i'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r adroddiad yn gynhwysfawr, yn arfarnol ac yn dwyn sylw dyledus i gryfderau'r ysgol ac, ar y cyfan, i'r agweddau sydd angen sylw pellach.

Mae'r staff i gyd yn rhan o greu'r adroddiad hunanarfarnu ac mae'r disgyblion, trwy'r Cyngor Ysgol a holiaduron, yn cael mewnbwn iddo. Defnyddir holiaduron i'r rhieni er mwyn derbyn eu sylwadau hwy a derbyniant ystyriaeth lawn. Er bod y

llywodraethwyr yn trafod yr adroddiad nid ydynt yn cael y cyfle i ddylanwadu'n ddigonol ar gynnwys yr adroddiad nac ar osod blaenoriaethau. Mae deilliannau'r broses hunanarfarnu yn sail i'r blaenoriaethau sydd yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau datblygiad proffesiynol sy'n berthnasol i anghenion unigol y staff ac sydd o bryd i'w gilydd â chysylltiad â'r blaenoriaethau o fewn y cynllun datblygu.

Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad staff, gan gynnwys staff cefnogi, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Llwyddodd yr ysgol i ymateb yn llawn i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu'r elfen o rwydweithio mewnol trwy rannu arferion da yr addysgu, cymedroli gwaith a thrafod a chynnig datblygiadau ar gyfer gwella'r dysgu. Mae'n cydweithio hefyd ag ysgolion y dalgylch a'r teulu o ysgolion i gynllunio a gweithredu datblygiadau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Mae trefniadau trosglwyddo da yn eu lle gyda'r feithrinfa leol sy'n cwrdd mewn ystafell o fewn yr ysgol.

Mae cysylltiadau da a threfniadau trosglwyddo pwrpasol gyda'r ysgol uwchradd gydag amryw o weithgareddau effeithiol wedi eu trefnu. Mae gwaith safoni a chymedroli addas yn digwydd yn y pynciau craidd.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref gyda busnesau a'r gymuned leol. Manteisiwyd ar gefnogaeth busnes lleol yn ystod gweithredu prosiect llwyddiannus i gynllunio car rasio. Mae ymweliadau â mannau lleol yn rhan o'r cwricwlwm ac mae aelodau o'r gymuned yn ymweld i rannu profiadau gyda'r disgyblion yn rheolaidd. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiol ddigwyddiadau lleol fel eisteddfodau, sioeau, gwasanaethau a chyngherddau. Mae'r berthynas glos hon yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ac yn effeithiol gyda'r gwasanaethau a gynigir gan yr awdurdod lleol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Mae staff yr ysgol wedi cydweithio'n ddiwyd i uno'r ysgolion. Crëwyd yr ymdeimlad o weithredu fel un ysgol a derbyniwyd cefnogaeth yr holl randdeiliaid.

Mae'r Corff Llywodraethol yn rheoli'r gyllideb yn briodol. Sicrheir adnoddau pwrpasol ar gyfer ymateb i ofynion cynnal ysgol ar ddau safle. Mae gwariant arian wrth gefn yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu'r Ysgol. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac yn ei defnydd o gyllid.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i holiaduron dysgwyr

Ymatebodd 21 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol dau i'r holiadur. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod beth i'w wneud ac at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt wrth eu gwaith. Cred pob disgybl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, a bod yr athrawon a staff eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae pob disgybl yn credu bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella gwaith a bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod y gwersi. Mae pob un o'r disgyblion yn credu bod digon o adnoddau pwrpasol, gan gynnwys cyfrifiaduron, yn yr ysgol iddynt wneud eu gwaith. Maent hefyd yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw achos o fwlio, ac mae bron pawb yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni neu ofidio. Maent i gyd yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a rhoi llawer o gyfleoedd rheolaidd iddynt gael ymarfer corff. Mae bron pob un o ddisgyblion yr ysgol yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

### Ymateb i holiaduron rhieni

Ymatebodd 17 o bobl i'r holiadur. Mae bron pob un ohonynt yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, ac yn credu bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn ddiogel yno. Mae'r rhan fwyaf yn datgan bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol ar ôl cael cymorth i ymgartrefu'n dda yno. Credant fod yr addysgu'n dda a bod athrawon a staff yr ysgol yn disgwyl i'r disgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau. Mae'r mwyafrif yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth gyson ar gynnydd eu plant, a bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r rhieni'n teimlo y caiff disgyblion gefnogaeth dda yn ôl eu hanghenion, ac yn teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiynau a gwneud awgrymiadau i'r ysgol. Teimlant fod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Ym marn bron pawb o'r rhieni, mae'r ysgol yn annog eu plant i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn credu bod amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys ymweliadau addysgol. Mae tua hanner y rhieni'n teimlo nad ydynt yn gwybod pa mor effeithiol y mae'r ysgol yn paratoi disgyblion ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Eirian Myfanwy Youngman | Arolygydd Lleyg |
| Marc Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jayne Brodrick | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |